**Rhybudd o Ymestyn Gorchymyn Gwahardd Cerddwyr Dros Dro**
**Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 – Adran 14**
**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Llwybr Cyhoeddus Rhif 22 yng Nghymuned Bwcle) (Gwahardd Cerddwyr Dros Dro) 2023**

Daeth y Gorchymyn uchod i rym ar 31 Gorffennaf 2023 am gyfnod o 6 mis, hyd at ac yn cynnwys 30 Ionawr 2024.


Rhoddir rhybudd drwy hyn bod y Gorchymyn uchod a wnaed gan Gyngor Sir y Fflint ar 25 Gorffennaf 2023 wedi ei ymestyn gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, hyd at 30 Rhagfyr 2024, ac yn cynnwys y dyddiad hwnnw, neu hyd y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, pa bynnag un sydd gyntaf.

Mae'r Gorchymyn yn gwahardd cerddwyr rhag defnyddio'r rhan honno o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 22 yng Nghymuned Bwcle o gyfeirnod grid NGR 327769 364686 am bellter o tua 190 metr i gyfeiriad y de at gyfeirnod grid 327726 364519.

Mae angen cau'r llwybr am resymau gwarchod y cyhoedd oherwydd datblygiad parhaus a gwaith cysylltiedig gan Medra Cyfyngedig.

Darperir llwybr amgen o Cheshire Lane ar hyd y caeau chwarae, gan ailymuno â Llwybr Troed 22 ar NGR 327726 364519.

Dyddiedig 26 Ionawr 2024



Gareth Owens
Prif Swyddog (Llywodraethu)
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint
AB/FCC047035